

Digwyddiadau yn Sir Conwy - Medi 2019

Gwiriwch y rhestr ddigwyddiadau ar www.visitconwy.org.uk am y wybodaeth ddiweddaraf ar yr hyn sydd ymlaen yn Sir Conwy

Orielau Celf

Oriel Ffin y Parc - Betws Road, Llanrwst. Ar agor dydd Mercher i ddydd Sadwrn 10am i 5pm, dydd Sul 11am i 5pm. Ffôn: 01492 642070. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.welshart.net/

- **Tan 1 Medi - Sébastien Preschoux: Niwl** - Mae 'Migrations' wedi comisiynu'r artist Ffrengig Sébastien Preschoux i greu gosodiad newydd sylweddol yn Ffin y Parc.
- **Tan 11 Medi - Beth Fletcher: The Kindling Hills** - Weithiau, mae artist yn gweld hi'n galed i baentio. Mae yna ormod o ddewisiadau, gormod sy'n tynnu sylw, gormod o swm. Ac weithiau mae pethau'n syrthio i'w lle ac mae'r gwaith yn llifo...
- **Tan 11 Medi - David Lloyd Griffith: Six Sunflowers** - Bydd y rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â gwaith Dafydd yn cael eich synnu, efallai gan ei gasgliad diweddara yn Ffin y Parc.
- **Tan 11 Medi - Helen Gittins** - Dyma sioe gyflawn cyntaf Helen yn Ffin y Parc. Mae'r gwaith yn dod o'r ddaear, ac yn mynegi ei chysylltiad â'r ddaear.
- **15 Medi i 9 Hydref - Arddangosfeydd:** David Grosvenor, Mike Jones a Carl Chapple.

MOSTYN - 12 Vaughan Street, Llandudno. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sul, 10.30am i 4pm. Ffôn: 01492 879201. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.mostyn.org

- **Tan 29 Medi - Cipolwg 17** - Mae gennym ddetholiad ardderchog arall o waith gan artistiaid o Ogledd Cymru mewn partneriaeth gyda'r Helfa Gelf Art Trail: Catherine Bailey; Elizabeth Bolloten; Jenny Ford; Eleri Jones; Nerys Jones; Lucy Elizabeth Jones; Dave Roberts. Mae'r arddangosfa wedi'i guradu gan Barry Morris.
- **Tan 29 Medi - Ann Bridges: Y Croeso** - Wedi'i ysbrydoli gan ei theithiau i India, Fietnam, Singapore a Gwlad Thai, mae Ann Bridges yn llenwi ei lyfrau braslunio gyda darluniau arsylwadol lliwgar o decstilau, bwyd, blodau, anifeiliaid, gwrthrychau ac eiliadau mewn amser. Yna caiff y dyddiaduron gweledol hyn eu datblygu yn ddelweddau hardd sy'n seiliedig ar brint.
- **Tan 27 Hydref - Elisabetta Benassi: Empire** - Gosodiad o tua 1,000 o friciau terracotta wedi'u gwneud â llaw yn y DU. Cawsant eu gwneud o glai sy'n amrywio o goch i ddu ei liw. Mae'r briciau wedi'u ffurfwedu fel gosodiadau penodol i safle.
- **Tan 27 Hydref - MOSTYN Agored 21** - Wedi'i ddewis o blith dros 750 o gyflwyniadau o bob cwr o'r byd, mae'r cynhyrchiad hwn yn nodi 21 mlynedd o'r arddangosfa hwn sydd o bwys rhyngwladol. Mae'n cyflwyno dros 30 o artistiaid yn gweithio mewn disgyblaethau megis tecstilau, ffotograffiaeth, paentio, cerfluniaeth, gosodiadau, ffilm a fideo.

Academi Frenhinol Gymreig - Crown Lane, Conwy. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn rhwng 11am a 5pm. Ffôn: 01492 593413. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.rcaconwy.org

- **Tan 7 Medi - 137ain Arddangosfa Flynyddol yr Haf** - Elusen yw'r Academi Frenhinol Gymreig sydd â'r nod o greu mwynhad o gelf weledol trwy gyfrwng arddangos bywiog a rhaglen addysgol.
- **14 Medi i 12 Hydref - Trwy Wahoddiad** - Detholiad Bev Bell-Hughes o waith artistiaid, arlunwyr, crochenwyr a cherflunwyr Cymreig.

- **14 Medi i 12 Hydref - Clive Hicks-Jenkins RCA - 'Sir Gawain and the Green Knight'** - Cyfres o brintiadau sgrin o argraffiad diwygiedig newydd o gyfieithiad Simon Armitage o'r gerdd ganoloesol.

Atyniadau

Gardd Bodnant - Tal-y-Cafn, Bae Colwyn. Mae taliadau mynediad yn berthnasol. Ffôn: 01492 650460 (neu 0344 2491895 ar gyfer archebu digwyddiadau). Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.nationaltrust.org.uk/bodnant-garden

- **11 Medi - Taith Gerdded a The Prynghawn gyda'r Prif Arddwr** - Dewch i fwynhau taith dywys gyda John y Prif Arddwr, a chael te gwerinol wedi hynny. Rhwng 11am a 2.30pm. Mae'n rhaid cadw lle ymlaen llaw. Tocynnau £25.
- **15 Medi - Canu'r Delyn yn y Felin Binnau** - Dewch i wrando ar athrylith y delyn, Dylan Cernyw, yn ein diddanu yn y Felin Binnau. Archebwch fasedg picnic a blanced ymlaen llaw o'r Pafiliwn i fynd i'r ardd gyda chi (gweler y wefan am brisiau). Rhwng 2pm a 3.30pm.
- **17 Medi - Taith Gerdded Adar** - Dewch i fwynhau taith dywys o amgylch yr ardd gyda Becky, yr arbenigwr lleol ar adar. Rhwng 11am a 12.30pm. Mae'n rhaid archebu lle.

Plas Mawr - High Street, Conwy. Mae taliadau mynediad yn berthnasol. Ffôn: 01492 573605. Gwe: www.cadw.gov.wales/

- **14 a 15 Medi - Y Blynyddoedd Coll** - Oeddech chi'n gwybod bod Plas Mawr unwaith yn gartref i ysgol? Dewch draw i ddsygu am ei hanes amrywiol wedi i'r teulu adael. Bydd sgysiau am 11am, 1pm a 3pm.
- **28 a 29 Medi - Cyfarfod y Trigolion** - Mae'r Teulu gartref y penwythnos hwn. Dewch i gael hwyl gyda nhw! Dewch i gyfarfod y Teulu i gael dysgu am eu bywydau. Rhwng 11am a 4pm.

Gwarchodfa Natur RSPB - Ger yr A55, Cyffordd Llandudno. Mae taliadau mynediad yn berthnasol ar gyfer llwybrau'r warchodfa. Ffôn: 01492 584091 (neu 01492 581025 ar gyfer archebu digwyddiadau). Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.rspb.org.uk/reserves-and-events/reserves-a-z/conwy

- **30 Awst-1 Medi, 6 a 13 Medi - ArtlySparkly Designs a Sebon Craft** - Arddangosfa ac arwerthiant o eitemau sy'n gysylltiedig â natur gan Sam (ArtlySparkly Designs) a Kate (Sebon Craft). Porwch drwy emwaith gwydr y môr, tlysau clai a phren, ffotograffiaeth natur, dillad wedi'u huwchgylchu ar thema natur, sebonau naturiol wedi'u gwneud â llaw, cardiau, dillad wedi'u crosio a dillad gwahanol wedi'u gweu. Rhwng 10am a 4pm. Digwyddiad am ddim.
- **7 Medi - Clwb Fforwyr Bywyd Gwyllt** - Mae'r Clwb Fforwyr Bywyd Gwyllt yn cyfarfod ar y dydd Sadwrn cyntaf bob mis, ac mae wedi ei anelu at bobl ifanc rhwng 8 a 12 oed. Ymunwch â ni ar gyfer pob math o weithgareddau sy'n ymwneud â natur, a chael rhywfaint o hwyl ymarferol yn eich gwarchodfa natur leol! Rhwng 1.30pm a 3.30pm. Mae'n rhaid archebu lle. Mae taliadau yn berthnasol.
- **7-8 a 21-22 Medi - Arddangosfa/Arwerthiant Celf Bee Williams** - Porwch drwy anrhegion unigryw ar thema natur a bywyd gwyllt gan yr artist lleol Bee Williams, gan gynnwys gwaith celf, cardiau, dyddiaduron a gemwaith wedi eu gwneud â llaw. Rhwng 10am a 4pm. Digwyddiad am ddim.
- **7, 14, 21 a 28 Medi - Teithiau cerdded bywyd gwyllt ar ddyddiau Sadwrn** - Ymunwch â'n gwirfoddolwyr cyfeillgar a gwybodus ar daith gerdded wedi ei thywys rhwng 11am a 1pm. Mae taliadau yn berthnasol.
- **25 Medi - Marchnad Ffermwyr Conwy** - Cynnyrch fferm a nwyddau lleol o'r ansawdd gorau rhwng 9am a 1pm. Digwyddiad am ddim. Gwe: www.conwyfarmersmarket.co.uk

Theatrau

Theatr Colwyn - Ffordd Abergele, Bae Colwyn. Ffôn: 01492 556677/872000. Gwe: www.theatrcolwyn.co.uk

- **3 Medi - NT Live: The Lehman Trilogy** am 7pm.
- **9 Medi - RSC Live: Measure for Measure** am 7pm.
- **12 Medi - NT Live: Fleabag** am 7.30pm.
- **27 Medi - Justin Moorhouse: Northern Joker** am 7.30pm.
- **28 Medi - The Houghton Weavers** am 7.30pm.
- **30 Medi - NT Live: One Man, Two Guvnors** am 7pm.

Venue Cymru - Promenâd, Llandudno. Ffôn: 01492 872000. Gwe: www.venuecymru.co.uk

- **31 Awst a 1 Medi - In The Night Garden** - gweler y wefan am amseroedd perfformiad.
- **5 Medi - The Dreamboys** am 7.30pm.
- **6 Medi - Barry Steele & Friends - The Roy Orbison Story** am 7.30pm.
- **7 Medi - A Country Night in Nashville** am 7.30pm.

- **8 Medi - Ant Middleton - Mind Over Muscle** am 7.30pm.
- **11 i 15 Medi - Tom Gates gan Liz Pichon** - gweler y wefan am amseroedd perfformiad.
- **17 Medi - Aled Jones a Russell Watson ar eu Taith 'Harmony'** am 7.30pm.
- **18 Medi - The King is Back** am 7.30pm.
- **20 Medi - Ocean Film Festival 2019** am 7.30pm.
- **21 Medi - Thank Abba For The Music** am 7.30pm.

Drysau Agored 2019

Drysau Agored 2019 - Ymunwch â ni ar gyfer dathliad blynyddol mwyaf Cymru o bensaernïaeth a threftadaeth. Mae mynediad yn rhad ac am ddim. Gwe: www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Libraries-Museums-and-Archives/Arts-and-Museums/Doors-open-to-Conwy-and-Gwynedds-architectural-treasures.aspx:

- **1 i 30 Medi - Hen Eglwys Llangelynnin** - Mae gan yr eglwys restredig Gradd I hon o'r 12fed Ganrif olygfeydd ysblennydd, wedi'i lleoli 900 troedfedd uwchben Henryd. Ar agor 9am i 6pm. Teithiau tywys ar 7 Medi am 2.30pm a Gŵyl Diolchgarwch ar 16 Medi am 3pm.
- **1 i 30 Medi - Eglwys y Santes Fair, Trefriw** - Adeiladwyd eglwys yma tua 1220. Yn ôl y chwedl roedd Llywelyn Fawr wedi adeiladu eglwys i'w wraig Seisnig, Joan, ac mae ffenestr liw hyfryd yn dangos Llywelyn a Joan. Ar agor 10am i 4pm.
- **1 i 30 Medi - Eglwys y Santes Fair, Conwy** - Gyda'i hanes yn mynd yn ôl ymhellach na Chastell Conwy fel safle Abaty Sistersaidd Aberconwy, mae'r Santes Fair wedi bod yn greiddiol i fywyd ysbrydol y dref ers y 1100au. Ar agor 10am i 4pm yn ystod yr wythnos, 11am i 3pm penwythnos.
- **1 i 30 Medi - Eglwys Sant Rhychwyn, Llanrhychwyn** - Credir bod rhannau o Eglwys Sant Rhychwyn yn dyddio'n ôl i'r 11eg Ganrif. Profwch yr ymdeimlad o hynafiaeth a thangnefedd yn yr eglwys wledig hardd hon, yr eglwys hynaf yng Nghymru yn ôl pob tebyg. Ar agor 10am i 4pm.
- **1 i 30 Medi - Hen Eglwys Sant Mihangel, Betws-y-Coed** - Adeilad rhestredig Gradd II* o'r 14eg Ganrif a adeiladwyd ar safle eglwys llawer hŷn. Codwyd estyniad ar yr adeilad presennol ym 1843 ond roedd yn dal yn rhy fach i'r boblogaeth a oedd yn tyfu. Oherwydd hyn, codwyd eglwys fwy (Eglwys y Santes Fair) ym 1873, a oedd yn nes at ganol y pentref. Ar agor 10am i 5pm. Gŵyl Flodau 6-8 Medi.
- **1 i 30 Medi - Capel Seion, Rowen** - Adeiladwyd ym 1819 ac fe'i hestynnwyd yn 1864. Mae'r dyluniad yn sgwâr gyda thair ystlys yn codi tuag at gefn yr adeilad - enghraifft berffaith o gapel traddodiadol yr anghydfurfwr. Ar agor 10am i 5pm.
- **2, 9, 16, 23 a 28 Medi - Eglwys Sant Bened, Gyffin, Conwy** - Mae Eglwys Sant Benedict bron â bod yn drysor cudd, yn ardal Gyffin, ar gyrion Conwy. Mae gwerth ymweld i weld y darluniau syfrdanol ar y nenfwd o'r 15fed Ganrif! Ar agor 11am i 5pm gyda gweithgareddau cynhaeaf ar 28 Medi (ar agor 11am i 3pm).
- **7 Medi - Eglwys y Santes Ffraid, Llansanffraid** - Sefydlwyd plwyf Llansanffraid Glan Conwy yn ôl pob sôn yn y 5ed Ganrif. Mae'r eglwys yn gysegredig i'r Santes Ffraid. Dywedir ei bod wedi croesi'r moroedd o'r lwerddon. Ar agor 10am i 1pm.
- **7 Medi - Eglwys Sant Hilary, Llanrhos** - Mae Sant Hilary yn adeilad rhestredig Gradd II*. Mae eglwys wedi bod ar y safle ers y 6ed Ganrif. Siâp croes sydd i'r eglwys bresennol ac fe'i hailadeiladwyd gan fynachod Abaty Maenan yn y 13eg Ganrif. Ar agor 10am i 4pm.
- **7 Medi - Gardd Bodnant** - Yn swatio ar waelod bryniau Eryri mae un o erddi mwyaf hudol y byd. Gyda'i golygfeydd dramatig, casgliadau o blanhigion hanesyddol, coed campus ac arddulliau garddwriaethol niferus, bydd yn cyffwrdd â'ch calon ac yn byw yn y cof am amser maith. Ar agor 10am i 5pm.
- **7 Medi - Eglwys y Santes Fair, Dolgarrog** - Mae tu allan yr eglwys hon o'r 1970'au yn cuddio tu mewn unigryw a dengar. Mae yma gofebion a lluniau o'r rheiny a fu farw yn Nhrychineb yr Argae a hefyd y Rhyfel Byd 1af. Ar agor 1pm i 5pm.
- **7 Medi - Plas Hafodunos, Llangernyw** - Tŷ Deffroad Gothig a ddyluniwyd yn y 1860au gan Syr George Gilbert Scott. Mae'r plas hwn yn adeilad rhestredig Gradd I gyda gerddi hanesyddol sy'n cael eu hadfer. Ar agor 2pm i 5pm.
- **7 Medi - Amgueddfa Syr Henry Jones, Llangernyw** - Mae'r amgueddfa yng nghanol pentref Llangernyw yn adlewyrchu hanes Syr Henry Jones pan oedd yn gweithio gyda'i dad yng ngweithdy'r crydd ac yna mynd ymlaen i fod yn athro a darlithydd. Ar agor 2pm i 5pm.
- **7 a 8 Medi - Eglwys San Siôr, Llandrillo-yn-Rhos** - Dyluniwyd yr adeilad rhestredig Gradd II* hwn gan y pensaer L W Bernard, yn y dull Neo-berpendicwlar. Mae yno arysgrif yn coffáu milwr a frwydrodd ym Mrwydr y Frigâd Ysgafn. Ar agor 7 Medi 10am i 4pm; 8 Medi 2pm i 4pm.
- **7 a 8 Medi - Eglwys y Santes Fair, Caerhun** - Mae'r eglwys restredig Gradd I sydd dros 700 mlwydd oed, wedi'i lleoli ar lannau afon Conwy, a oedd unwaith yn safle i Gaer Rufeinig Canovium. Ar agor 7 Medi 10am i 4pm; 8 Medi 2pm i 4pm.
- **7 a 8 Medi - Eglwys Blwyf Sant Trillo, Llandrillo-yn-Rhos** - Eglwys hyfryd restredig Gradd II* o'r canol

oesoedd, yn dyddio'n rhannol i'r 12fed Ganrif. Mae'n adeilad gwyngalchog, ac felly roedd yn dirnod i gychod ar y môr. Ar agor 7 Medi 10am i 4pm; 8 Medi 2pm i 4pm.

- **7 a 8 Medi - Capel Sant Trillo, Llandrillo-yn-Rhos** - Mae capel Sant Trillo ar lan y môr yn denu pobl o bob cwr o'r byd a dywedir ei fod ar safle hen gell sant o'r 6ed Ganrif, sef Sant Trillo. Ar agor 7 Medi 10am i 4pm; 8 Medi 2pm i 4pm.
- **7 a 8 Medi - Eglwys Sant Pedr, Llanbedr-y-Cennin** - Mae'r eglwys wledig hon ar safle addoli sydd wedi bodoli ers y 13eg Ganrif. Dewch i weld ei harddwch hynafol, yng nghanol prydferthwch Dyffryn Conwy, a chlywed am ei hanes rhyfeddol. Ar agor 7 Medi 11am i 5pm (Sgwrs hanes am 2pm); 8 Medi 2pm i 5pm.
- **13, 14, 15, 21 a 22 Medi - Eglwys Santes Julitta, Capel Curig** - Yr eglwys leiaf o hen eglwysi Eryri ac adeilad rhestredig Gradd II*. Bydd arddangosfa o'r enw Pobl a Lleoedd Ystâd Penrhyn yng Nghapel Curig. Ar agor 11am i 4.30pm.
- **14 Medi - Eglwys Sant Cystennin, Llangystennin** - Credir i Eglwys Sant Cystennin gael ei sefydlu yn 338AD a'i chysegru i un Cystennin neu'i gilydd. Ailadeiladwyd yr eglwys bresennol ym 1843 ac mae'n un Radd II rhestredig. Ar agor 10am i 4pm.
- **14 Medi - Eglwys yr Holl Saint, Deganwy** - Eglwys restredig Gradd II* o gyfnod Victoria a ddyluniwyd gan John Douglas, pensaer a ddyluniodd ryw 500 o adeiladau yn y Gogledd, Sir Gaer a Gogledd-Orllewin Lloegr. Ar agor 10.30am i 3.30pm.
- **14 Medi - Amgueddfa Penmaenmawr** - Amgueddfa wedi ei hailwampio yn arddangos hanes y dref o'r oes Neolithig a Diwydiannol. Cewch gwrdd gyda'n pererin canoloesol a fydd yn darparu gweithgareddau ar gyfer pob oed yn ein hystafell de newydd sbon. Ar agor 12pm i 4pm.
- **14 a 15 Medi - Neuadd y Dref, Conwy** - Mae Neuadd y Dref yn cynnwys Parlwr y Maer, a adeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Siambr y Cyngor a'r Fynedfa a ychwanegwyd yn 1925. Safodd adeiladau ar y safle hwn ers y 13eg Ganrif. Ar agor 10am i 4pm.
- **14 a 15 Medi - Capel Gwydir Uchaf** - Pan oedd ar berchennog Castell Gwydir eisiau ei fan addoli ei hun, adeiladodd ei gapel preifat ei hun. Y perchennog dan sylw oedd Syr Richard Wynn, aelod o deulu dylanwadol Wynn a adeiladodd hefyd Blas Mawr yng Nghonwy. Ar agor 10am i 4pm.
- **15 Medi - Canolfan Gymunedol Shiloh, Cwm Penmachno** - Capel wedi'i drosi yw'r Shiloh gydag ystafell dreftadaeth unigryw sy'n dathlu hanes a diwylliant bro Machno. Ar agor 11am i 3pm.
- **21 Medi - Eglwys Sant Tudclud, Penmachno** - Gorwedd eglwys Sant Tudclud yng nghanol cwm prydferth Machno ac mae ganddo gasgliad anhygoel o gerrig cynnar wedi'u harysgrifio. Dewch i ddarganfod hanes Melin Wlân Penmachno. Ar agor 10am i 4pm.
- **21 Medi - Eglwys Unedig, Penmachno** - Hwn yw'r trydydd capel ar y safle, a adeiladwyd yn 1873 fel addoldy i'r Methodistiaid Calfinaidd. Mae cyfle i ymweld a gwerthfawrogi'r adeilad prydferth hwn gyda'i oriel, organ a nenfwd addurnedig. Ar agor 10am i 4pm.
- **21 Medi - Tŷ Mawr, Wybrnant, Penmachno** - Un o'r cartrefi pwysicaf yn hanes yr iaith Gymraeg, ac roedd yn gartref i William Morgan, y dyn a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg yn 1588. Ar agor 12pm i 5pm.
- **21 a 22 Medi - Tŷ Crwn a Phorthdy Giât Abergele** - Yn rhan o Ystâd Castell Gwrych. Tŷ Crwn yw baddonny hanesyddol teulu'r Lloyds o Gastell Gwrych, a ddefnyddiwyd gan Iarlles Dundonald. Porthdy Giât Abergele yw mynedfa swyddogol drawiadol Parc Castell Gwrych. Ar agor 1pm i 3pm.
- **28 Medi - MOSTYN, Llandudno** - O'i ffryntiad terracotta hardd i'w bensaernïaeth fodern hynod tu mewn, mae adeilad Mostyn yn gartref i straeon o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ar agor 10am i 4pm gyda theithiau tywys am 11am a 2pm.

Digwyddiadau Cyffredinol

Pob dydd Llun tan 16 Medi - Harmony Singers - Monday Night is Music Night - Côr lleol yw'r Harmony Singers sy'n perfformio pob nos Lun tan 16 Medi. Mae'r côr yn perfformio eang o gerddoriaeth yn ystod eu cyngherddau wythnosol, sy'n dwyn yr enw 'Monday Night is Music Night'. Bydd yr holl elw'n mynd at elusennau lleol a chenedlaethol. Yn Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Stryd Mostyn, Llandudno o 8pm (drysau'n agor am 7.30pm). Tocynnau: oedolyn £7, plentyn £3. Ffôn: 07912 292230. Gwe: www.harmonysingers.co.uk

Pob dydd Mawrth ym Medi - Ffair Grefftau Cymreig - Ffair grefftau gorau Llandudno, yn llawn stondinau yn gwerthu crefftau Cymreig. Mae'r pris mynediad (50c) yn cynnwys diod boeth am ddim. Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 9am a 4pm. Ffôn: 07989 955541. Gwe: www.rjgevents.co.uk/

Pob dydd Mawrth ym Medi - Cyngherddau Côr Meibion Llanddulas - Bydd Côr Meibion enwog a phoblogaidd Llanddulas yn perfformio cyngherddau i gyfeiliant piano a thelyn yn Eglwys Unedig Gloddaeth, Llandudno (ar gornel Chapel Street a Gloddaeth Street) o 8pm. Tocynnau £6 (taladwy ar y drws). Ffôn: 01745 823791. Gwe: www.llanddulaschoir.co.uk

Pob dydd Mawrth ym Medi - Century of Musicals - Mae Llandudno Musical Productions yn perfformio pob dydd Mawrth yn ystod yr haf gyda'u sioe A Century of Musicals. Mae'r sioe yn cynnwys caneuon a dawnsiau poblogaidd o sioeau cerdd o'r 1920au hyd heddiw - rywbeth at ddant pawb! Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 8pm a 10pm (drysau'n agor am 7.30pm). Tocynnau: oedolyn £7.50, o dan 16 £5. Ffôn: 01492 533804. Gwe: www.llandudnomusicalproductions.co.uk/

Pob dydd Mawrth a dydd lau tan 17 Hydref - Cyngherddau Corau Meibion - Bydd ein cyngherddau Corau Meibion poblogaidd yn dychwelyd ar gyfer tymor yr haf 2019 gydag amrywiaeth o ganeuon hyfryd yn Saesneg ac yn Gymraeg. Yn Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Stryd Mostyn, Llandudno rhwng 8pm a 9.45pm. Drysau yn agor am 7.15pm. Tocynnau: £7 (£1 o ostyngiad gyda cherdyn preswylwyr Conwy). Ffôn: 01492 860439. Gwe: www.stjohnsllandudno.org/concerts.html

Pob dydd lau ym Medi - Ffair Fintej a Hen Bethau - Ffair Fintej a Hen Bethau ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Amrywiaeth eang o nwyddau ar werth i weddu pawb a phob pced. Llestri talch, gwydr, llieiniau, peintiadau ac argraffiadau, llyfrau, gemwaith (gemau cain a gemau gwisgo), arian, cardiau post ac ati. Yn Neuadd Eglwys y Santes Fair, Holyhead Road, Betws-y-Coed rhwng 9am a 4pm. Mynediad: oedolyn 30c, plentyn (dan 16) am ddim. Ffôn: 07581 397721. Gwe: www.simplythebestantiquefairs.co.uk

Pob dydd Gwener tan 20 Rhagfyr - Marchnad Wledig Llandrillo-yn-Rhos - Mae bwyd, cacennau, bara, prydau sawrus a bisgedi cartref, crefftau cartref a phlanhigion tymhorol ar werth. Lluniaeth ar gael, a chroeso i bawb. Yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Colwyn Avenue, Llandrillo-yn-Rhos rhwng 10am a 12pm. Ffôn: 01492 544920

31 Awst a 1 Medi - Ceir Clasurol Americanaidd - Dewch i weld ystod eang o geir clasurol Corfet a cheir clasurol Americanaidd, yn ogystal â stondinau gyda bwyd a diod drwy'r penwythnos. Yng Nghastell Gwrych, Abergele rhwng 11am a 4pm. Mynediad: oedolyn £5; plentyn £2.50; o dan 3 am ddim; teulu (2 oedolion a 3 phlant) £15. Mae cost mynediad yn cynnwys mynediad i'r castell a'r tir prydferth. Ffôn: 07966 600058. Gwe: www.facebook.com/events/380704086030010/

1 Medi - Triathlon Sprint Llanrwst - Mae Clwb Triathlon GOG yn cynnal Triathlon Sprint Llanrwst sy'n cynnwys nofio 400 metr, beicio 24k drwy Ddyffryn Conwy a rhedeg 5k trwy Goed Gwydir (gydag ambell i allt ar y ffordd!). Mae'n addas i ddechreuwyr ac mae'r cymalau yn cael eu hamseru, gyda gwobrau i'r tri cyflymaf ac i enillwyr bob grŵp oed. Mae rhagor o wybodaeth a ffurflen gofrestru ar gael ar y wefan: www.gogtriathlon.com/events/llanrwst-sprint-triathlon/

1 Medi - Motobeics Mawreddog ar Bromenâd Llandudno - Arddangosfa'r Gymdeithas Cadwraeth Beiciau Modur Prydeinig o feiciau modur clasurol (i fyny at 1980) ar y cyd â chlybiau eraill - Whistle Stop Café, Goldwing, Wirral Wobblers ac eraill. Mae croeso i chi ddod draw ac arddangos eich beic modur chi, hen neu newydd. Bydd yr holl elw'n mynd i Blind Veterans UK. Ar y Promenâd, Llandudno rhwng 10am a 3pm. Ffôn: 07816 066465. Gwe: www.bmpswnwales.org.uk

1 Medi - Garddwest a Barbeciw Elusennol - Dewch i ymuno â Greyhound Mommas yn ein Barbeciw'r Haf. Bydd amrywiaeth o stondinau grefft yn gwerthu nwyddau cartref, a chacennau a hufen ia cartref. Bydd holl elw o'r digwyddiad yn mynd yn uniongyrchol i Skylor Animal Rescue. Yn 5 Heol Heddwch, Abergele rhwng 1pm a 4pm. Mynediad £2. Ffôn: 07599 406198

5 Medi - Cerdded ar Dân ym Mhorth Eirias - Os ydych chi ar dân eisiau codi arian, ond ddim awydd cerdded ugain milltir, beth am gerdded rhyw ugain troedfedd yn lle? Ymunwch â ni wrth i ni deimlo'r fflamau a cherdded yn droednoeth dros wely o farwor poeth oddeutu 800 gradd. Dim triciau, dim effeithiau arbennig. Dim ond chi a'r tân! Ym Mhorth Eirias, Promenâd, Bae Colwyn o 7pm. Ffi gofrestru £12 a nawdd o £80. Ffôn: 07800 790 353. Gwe: www.tenovuscancercare.org.uk/get-involved/

7 Medi - Ffair Hen Bethau a Chasglwyr - Mae'r Llewod o Landudno wedi bod yn cynnal Ffair Hen Bethau a Chasglwyr yn Llandudno am dros 30 blwyddyn. Mae amrywiaeth eang o eitemau ar werth gyda phrisiau sy'n addas i bawb, yn amrywio o £1 i gannoedd o bunnoedd. Bydd yr holl elw yn mynd i elusennau lleol. Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 9am a 4pm. Mynediad: 50c. Ffôn: 07968 957177

7 Medi - Sioe Cerrig - Gydag atyniadau i apelio at bob oedran gyda gwartheg a defaid o bob brid posibl, hen beiriannau sy'n dal i weithio, cneifio defaid traddodiadol a'r babell cynnyrch cartref, sy'n enwog am ei ansawdd ar draws Gogledd Cymru. Yng Ngherrigydrudion rhwng 9am a 5pm. Mae taliadau mynediad yn berthnasol. Ffôn: 01490 460591. Gwe: www.cerrigshow.co.uk

7 Medi - Sioe yr Hydref Cymdeithas Arddwriaethol Bae Colwyn - Sioe Flynyddol yr Hydref yn arddangos y cynnyrch garddwriaethol lleol gorau, gan gynnwys blodau, planhigion, ffrwythau, llysiau, cynnyrch y cartref, ffotograffiaeth a chystadlaethau plant. Yn Neuadd Eglwys Fethodistaidd, St George's Road,

Llandrillo-yn-Rhos rhwng 2pm a 4.30pm. Mynediad £1; am ddim i aelodau. Ffôn: 07824 633219. Gwe: www.colwynbayhorticulturalsociety.com/

7 Medi - Noson Band Pres yr Haf - O Abba i James Bond ... O'r Floral Dance i'r Great Escape! Dyma noson band pres clasurol gyda Band Treffynnon. Ymunwch â ni am noson o adloniant yn Eglwys Sant Paul, Mostyn Broadway, Craig-y-Don rhwng 7pm a 9pm. Mynediad am ddim (gyda chasgliad). Ffôn: 01492 541615. Gwe: www.stpaulsllandudno.co.uk/

12-14 a 26-28 Medi - Ffair Recordiau Llandudno - Mae Ffair Recordiau Beatlesday yn dychwelyd i Landudno gyda llwyth o recordiau finyl roc a phop gwych a digonedd o bethau vintage a retro ar gael dros 3 diwrnod. Yn Neuadd Eglwys Fethodistaidd Sant Ioan, Stryd Mostyn, Llandudno rhwng 1pm a 6pm dydd lau a rhwng 10am a 6pm dydd Gwener a dydd Sadwrn. Ffôn: 07801 564622. Gwe: www.beatlesdays.com

13 Medi - Ffair Fêl Conwy - Ffair Siarter Frenhinol 700 mlynedd oed gyda stondinau cynnyrch mêl a chychod gwenyn, planhigion a marchnad ffermwyr. Mae gwenynwyr lleol yn gwerthu dros dunnell o fêl erbyn amser cinio. Ar y Stryd Fawr, Conwy rhwng 9am a 4pm. Mynediad am ddim. Ffôn: 01492 650851. Gwe: www.conwybeekeepers.org.uk

13 a 14 Medi - Pencampwriaeth Agored Deuddydd Anyfish Anywhere 2019 - Pencampwriaeth agored deuddydd i bysgotwyr môr yn nhref wyliau boblogaidd Llandudno. Am ddim i wylwyr. Ffôn: 01803 213555. Gwe: www.facebook.com/anyfish-anywhere-UK-Ltd-604203072940763/

13-15 Medi - LLAWN Penwythnos Celfyddydol Llandudno - Llawn yw gŵyl aml-gelf rad ac am ddim MOSTYN sy'n cael ei chynnal ar draws Llandudno ar un penwythnos bob mis Medi. Mae perfformiadau i un person ar y tro, ynghyd â sioeau sy'n adrodd hanesion, gemau i'w chwarae, cerddoriaeth i wrando arni, sinema i ymlacio iddo, gweithdai lle cewch gyfle i greu pethau ac arddangosfeydd celf gweledol y gallwch ymgolli eich hun ynddynt. Gweler y wefan am fanylion llawn: www.llawn.org

14 Medi - Cerddoriaeth o'r Nefoedd - Noson o gerddoriaeth o'r 500 mlynedd diwethaf gyda chonsort Pibgyrn Syrinx a Chôr St Paul. Bydd y gerddoriaeth yn cynnwys darnau gan Dowland, John Rutter, Thomas Tallis a'r thema o raglen The Vicar of Dibley. Yn Eglwys Sant Paul, Mostyn Broadway, Craig-y-Don rhwng 7pm a 9pm. Mynediad am ddim (gyda chasgliad). Ffôn: 01492 541615. Gwe: www.stpaulsllandudno.co.uk/

20 Medi - Cyngerdd Côr Elusennol - Mae Cŵn Tywys Conwy a'r Ardal yn eich gwahodd i noson o gerddoriaeth gan gân cymysg Côr Alaw. Yn Eglwys Dewi Sant, Glan-y-Mor Road, Bae Penrhyn o 7.30pm (drysau'n agor am 7pm). Mae mynediad am ddim a chroesawir cyfraniadau ar gyfer gwaith y Cŵn Tywys. Ffôn: 01492 875098

21 Medi - Ffair Finteja a Hen Bethau - Bydd amrywiaeth o nwyddau ar werth gyda phrisiau i weddu pawb: llestri talch, gwydr, llieiniau, peintiadau ac argraffiadau, llyfrau, gemwaith (gemau cain a gemau gwisgo), arian, cardiau post ac ati. Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 9am a 4pm. Mynediad: oedolyn 50c; plentyn (dan 16) am ddim. Ffôn: 07581 397721. Gwe: www.simplythebestantiquefairs.co.uk

21 a 22 Medi - Snowdonia 24, Betws-y-Coed - Pa mor bell ewch chi? Her 24 awr newydd sbon Eryri i unigolion neu dimau. Cwblhewch gymaint o gylchoedd 10k ag y gallwch, a gwnewch bob un yn eich pwysau. O Gae Llan, Betws-y-Coed o 10am ar 21 Medi. Ffôn: 07525 625375. Gwe: www.breeseadventures.co.uk/

22 Medi - 11.5k Llyn Alwen - O faes parcio Canolfan Ymwelwyr Alwen sydd wedi'i leoli ger Llyn Brenig, mae'r llwybr rhedeg hwn yn darparu lleoliad gwych ar gyfer rhedeg llwybrau naturiol. Mae'r llwybr yn cynnwys cymysgedd o gerrig mân, llwybrau naturiol a ffyrdd tân, sy'n ymlwybro drwy'r coed pîn a'r goedwig, ynghyd â manau agored llawn gwair, sy'n cynnig golygfeydd godidog dros Rhosydd Dinbych. Dechrau am 9.30am gyda canicross am 9.40am. Ffôn: 07769 958671. Gwe: www.bespokefitnessandevents.co.uk

YMUNWCH Â'N RHESTR BOSTIO

i dderbyn pdf o'r Digwyddiadau yn Sir Conwy yn syth i'ch cyfeiriad e-bost bob mis. E-bostiwch eich cais i: maggie.williams@conwy.gov.uk

Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) dderbyn unrhyw gyfrifoldeb os bydd unrhyw ddigwyddiad yn cael ei ganslo neu ei ohirio. Os ydych yn trefnu digwyddiad a fydd o ddiddordeb i ymwelwyr a thwristiaid ac yr hoffech i ni ei hyrwyddo ar eich rhan, ewch i www.visitconwy.org.uk/information/get-listed. Byddwch yn cael eich cynnwys yn ôl disgrisiwn CBSC. Cynhyrchwyd gan Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata, CBSC. Ffôn: 01492 575940 neu e-bost: maggie.williams@conwy.gov.uk

This document is also available in English